

MYFYRDOD DIODDEFANT CRIST

Cyfrifir *Y Dioddefaint yn ôl Sant Mathew* gan Johann Sebastian Bach fel un o weithiau corawl mwyaf Gorllewin Ewrop. Fe'i cyfansoddwyd fwy na thebyg yn 1727 ar sail testun Efengyl Mathew (penodau 26 a 27) o hanes dioddefaint Crist, ac mae'n llawn o unawdau, adroddganau, cytganau a charolau dramatig a dwys, gyda libreto gan Picandee (Christian Friedrich Henrici) sy'n ychwanegu at y testun Beiblaidd. Tybir iddo gael ei ganu am y tro cyntaf yn Leipzig, ddydd Gwener y Groglith 1727, ac ynddo gwnaeth Bach ddefnydd helaeth o 'Gorâl y Dioddefaint', yr emyn-dôn sy'n gyfarwydd i ni dan yr enw 'Mannheim'.

Tristwch yw nodwedd bennaf y gwaith ar ei hyd. Ceir llawer iawn o fyfyrion dwys ar arwyddocâd y Dioddefaint, ochr yn ochr â'r adroddiad maes o hanes dal, arteithio a chroeshoelio Iesu... Ac eto, ni allaf glywed y gytgan olaf heb deimlo ias yn cerdded drwof. Mae'n dod â thawelwch wedi'r storm a hedd wedi'r loes. Mae'n cloi'r hanes dirdynol mewn modd tangnefeddus.

Addasiad o 'Gwefr' gan Rhidian Griffiths